



COMISIWN ELUSENNAU  
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

## Cyllid elusennau: yr hanfodion i ymddiriedolwyr



# Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Gwneud y mwyaf o'ch cyllid	4
3. Cynhyrchu incwm	8
4. Defnyddio adnoddau eraill	11

# 1. Cyflwyniad

Mae rheolaeth dda o gyllid ac asedau eraill elusen yn ei galluogi i lwyddo i gyflawni ei nodau elusennol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr orchwyllo eu hadnoddau yn briodol a bodloni eu hunain bod ganddynt:

- gynlluniau a strategaethau ariannu realistig
- rheolaethau a systemau rheoli effeithiol
- wedi cynllunio ar gyfer defnyddio asedau ac adnoddau'r elusen yn y ffordd orau posibl ar gyfer eu buddiolwyr

Gall cael hyn yn iawn ddod â llawer o foddhad. Mae'n dangos canlyniadau gwerthfawr a gweladwy ymrwymiad ymddiriedolwr i'w elusen, ei fuddiolwyr a'i gefnogwyr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod yr ymrwymiad a ofynnir gan ymddiriedolwyr a'r heriau y gallant eu hwynebu wrth wasanaethu eu helusen yn dda. Gall ymddiriedolwyr ddirprwyo tasgau i staff sydd â chymwysterau addas a/neu wirfoddolwyr ond beth bynnag fo'r trefniadau, mae goruchwyliaeth a monitro priodol yn hollbwysig.

Mae elusennau'n amrywio'n fawr o ran maint, graddfa a sut y maent yn gweithredu, ac felly mae'n rhaid i ymddiriedolwyr benderfynu beth sy'n rhesymol, yn gymesur ac yn briodol ar gyfer eu helusen. Er bod dyletswyddau cyfreithiol cyffredin yn gymwys i bob elusen, bydd y modd y mae ymddiriedolwyr yn dehongli arfer da yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Fel y rheoleiddiwr elusennau, mae'r Comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Ni ddisgwylir i ymddiriedolwyr fod yn berffaith - disgwylir iddynt wneud eu gorau i gydymffurfio â'u dyletswyddau. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y rhan fwyaf o ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr sy'n gwneud camgymeriadau gonest weithiau: os ydynt wedi gweithredu'n onest ac yn rhesymol, cânt eu diogelu fel arfer o dan y gyfraith.

## 1.1 'Rhaid' a 'dylai': beth mae'r Comisiwn yn ei olygu

Yn y canllaw hwn:

- mae 'rhaid' yn golygu rhywbeth sy'n ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol neu ddyletswydd y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â hi
- mae 'dylai' yn golygu rhywbeth sy'n arfer da y mae'r Comisiwn yn disgwyl i ymddiriedolwyr ei dilyn a'i chymhwyso i'w helusen nhw

Bydd dilyn yr arfer da a nodir yn y canllaw hwn yn eich helpu i redeg eich elusen yn effeithiol, osgoi anawsterau a chydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol. Mae elusennau'n amrywio o ran eu maint a'u gweithgareddau. Ystyriwch a phenderfynwch ar y ffordd orau o gymhwyso'r arfer da yma i amgylchiadau'ch elusen chi. Mae'r Comisiwn yn disgwyl i chi allu esbonio a chyfiawnhau eich ymagwedd, yn enwedig os ydych chi'n penderfynu peidio â dilyn yr arfer da yn y canllaw hwn.

Mewn rhai achosion ni fyddwch yn gallu cydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol os nad ydych yn dilyn yr arfer da. Er enghraifft:

Eich dyletswydd gyfreithiol	Mae'n hollbwysig eich bod chi'n
Gweithredu er lles gorau eich elusen	Delio â gwrthdaro buddiannau
Rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol	Gweithredu rheolaethau ariannol priodol Rheoli risgiau
Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol	Ceisio cyngor priodol pan fydd ei angen arnoch, er enghraifft, pan fyddwch yn prynu neu'n gwerthu tir, neu'n buddsoddi (weithiau mae hyn yn ofyniad cyfreithiol)

Gall ymddiriedolwyr sy'n torri eu dyletswyddau cyfreithiol fod yn atebol am y canlyniadau sy'n deillio o gamweithredu o'r fath ac am unrhyw golled a ddaw i'r elusen o ganlyniad. Pan fydd y Comisiwn yn ystyried achosion posibl o dor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd neu gamymddwyn neu gamreoli arall, gall ystyried tystiolaeth bod yr ymddiriedolwyr wedi rhoi'r elusen, ei hasedau neu ei buddiolwyr mewn perygl o niwed neu risg gormodol drwy beidio â dilyn arfer da.

## 1.2 Am y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno ymddiriedolwyr elusennau yng Nghymru a Lloegr i hanfodion meysydd mwyaf cyffredin eu cyfrifoldeb ariannol pan fyddant yn rhedeg elusen. Mae elusennau'n gweithredu mewn sawl ffordd wahanol felly dylai ymddiriedolwyr ystyried beth sy'n gymwys i'w helusen nhw - er enghraifft, ydy'r elusen yn rhoi grantiau, ydy hi'n darparu gwasanaethau wedi'u cyllido gan grant neu gontract, ydy hi'n dibynnu ar godi arian cyhoeddus?

Mae'n ceisio helpu ymddiriedolwyr i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r dyletswyddau - sy'n cael sylw mwy manwl yng nghanllaw'r Comisiwn '**Yr ymddiriedolwr hanfodol**' - sy'n fwyaf perthnasol i reolaeth ariannol, sef:

- gweithredu er lles eu helusen a'i buddiolwyr a'i nodau elusennol
- rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol
- gweithredu gyda gofal a gallu rhesymol
- sicrhau bod eu helusen yn atebol

Mae pob adran yn rhoi sylw i agwedd benodol ar reolaeth ariannol a rheoli adnoddau a gellir ei defnyddio fel rhestr wirio wrth wneud penderfyniadau, i adnabod meysydd risg ac adeiladu cynlluniau. Mae'n darparu cysylltiadau i ganllawiau pellach sy'n helpu ymddiriedolwyr pan fydd angen rhagor o ddealltwriaeth fanwl arnynt. Mae rhai o'r pwyntiau bwled yn dechrau gyda 'rhaid' pan fyddant yn disgrifio gofyniad cyfreithiol; dylid trin pob pwynt bwled arall fel 'dylai'.

Mae'r canllaw yn cwmpasu materion rheolaeth ariannol bob dydd yn ogystal â materion adnoddau ehangach megis staff a gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi sylw i faterion cyfrifyddu yn uniongyrchol - gweler canllaw **gofynion cyfrifyddu sylfaenol** y Comisiwn ar gyfer elusennau o bob maint a strwythur.

## 2. Gwneud y mwyaf o'ch cyllid

### 2.1 Rheolaeth ariannol

Gall elusen gyflawni ei nodau dim ond os yw'n rheoli ei harian yn briodol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddi gynllunio a monitro ei hincwm a'i gwariant er mwyn iddi allu cyflawni ei nodau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Dylai cynllun gweithredol neu strategol elusen amlinellu'r polisiau, y strategaethau a'r gweithredoedd sydd eu hangen i gyflawni hyn. Bydd rheoli arian yn ofalus hefyd yn diogelu cronfeydd yr elusen rhag cael eu camddefnyddio.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- **gytuno ac adolygu'n rheolaidd** eu cynlluniau ar gyfer cyflawni nodau'r elusen a'r cyllid sydd ei angen i'w cynnal
- cytuno o ble y daw cyllid, a beth fydd yn digwydd os daw i ben - dylent gynllunio ar gyfer sut i leihau neu osgoi'r math hwn o risg trwy, er enghraifft, cael sawl ffynhonnell o gyllid a chael polisi cronfeydd wrth gefn
- cynlluniau ar **gyfer dirwyn yr elusen i ben yn drefnus os nad yw'n gallu gweithredu'n effeithiol mwyach** - mae hyn yn golygu y byddant yn gallu cydnabod pryd mae'r pwynt hwn yn cael ei gyrraedd - dylai cynlluniau gwmpasu lles eu buddiolwyr yn y dyfodol (yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed), eu staff a gwaredu asedau'r elusen yn briodol
- **gwybod pa cronfeydd sy'n gyfyngedig** - rhaid i'r cronfeydd hyn gael eu defnyddio dim ond yn y ffordd a nodir gan y rhoddwr
- cytuno, sefydlu ac adolygu polisiau a gweithdrefnau ariannol mor rheolaidd ag y bo'n briodol - dylai staff a gwirfoddolwyr (os cânt eu defnyddio) gymryd rhan er mwyn i bawb ddeall y rheolaethau sydd yn eu lle
- gosod neu gytuno ar gyllideb flynyddol sy'n nodi nodau ac amcanion yr elusen a sut i'w cyflawni - dylai'r gyllideb gynnwys cost gweithgareddau a sut y darperir adnoddau ar eu cyfer
- monitro perfformiad ariannol trwy gymharu yn rheolaidd incwm a gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb flynyddol; dylai eu hagenda gynnwys adroddiadau prosiect/adolygiadau ariannol fel eitem sefydlog
- cyllidebu ar gyfer costau llawn darparu unrhyw wasanaeth - dylent wneud hyn pan fyddant yn ystyried bethi i'w godi am wasanaethau (os ydynt yn bwriadu gwneud hynny), gwneud cais am grantiau neu gynnig am gontractau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus
- rhaid iddynt baratoi **cyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr** yn unol â'r gofynion a'r safonau sy'n gymwys i faint a strwythur cyfreithiol eu helusen

Gwybod rhagor:

**Rheoli cyllid elusen: cynllunio, rheoli anawsterau ac ansolfedd (CC12)**

## 2.2 Adnabod a rheoli risg

Dylai elusennau adolygu ac asesu'n gyson y risgiau a wynebant ym mhob maes gwaith a chynllunio ar gyfer rheoli'r risgiau hynny. Bydd proses rheoli risg gadarn yn galluogi'r elusen i ystyried sut y gellir diogelu ei hasedau a'i hadnoddau a'u defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Bydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai elusennau i adrodd am eu prosesau rheoli risg yn eu hadroddiadau blynyddol.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- greu ac adolygu polisi rheoli risg sy'n cwmpasu pob agwedd ar redeg yr elusen - dylai amlinellu'r prosesau y bydd yr elusen yn eu defnyddio i adnabod y risgiau a sut y bydd yn eu rheoli
- rhaid gwneud datgeliad rheoli risg yn eu hadroddiad blynyddol yn unol â'r rheoliadau os yw'r elusen yn uwch na'r trothwy archwilio
- gwneud datganiad rheoli risg yn eu hadroddiad blynyddol fel mater o arfer da os ydynt yn ymddiriedolwyr elusen lai sy'n is na'r trothwy archwilio
- amlinellu rolau gwahanol yr ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr wrth asesu a rheoli risg - dylai ymddiriedolwyr amlinellu'r polisiau a goruchwylio'r canlyniadau, ond gallant ddirprwyo'r broses rheoli risg i staff neu ymgynghorwyr proffesiynol
- sefydlu fframwaith i helpu i nodi risgiau o ddydd i ddydd - dylai hyn amlinellu pa benderfyniadau y gellir delio â nhw neu eu derbyn gan eraill, ond rhaid iddynt gael eu cyfeirio at yr ymddiriedolwyr
- adolygu'r holl risgiau a nodir a sut y dylid eu rheoli - bydd pa mor aml y gwneir hyn yn dibynnu ar amgylchedd gwaith yr elusen, ac unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd ariannol a deddfwriaeth
- sefydlu cynllun adfer ar ôl trychineb sy'n galluogi'r elusen i ailgyflwyno gwasanaeth arferol (neu mor arferol â phosibl) i'w buddiolwyr os yw digwyddiad difrifol yn ei hatal rhag cyflawni ei gweithgareddau arferol

Gwybod rhagor:

### Elusennau a rheoli risg (CC26)

## 2.3 Rheolaethau ariannol mewnol cadarn

Mae dyletswydd ar bob ymddiriedolwr i ddiogelu asedau ac adnoddau ei elusen a sicrhau y cânt eu defnyddio dim ond i hyrwyddo nodau'r elusen. Dylai fod ganddynt reolaethau ariannol mewnol cadarn yn eu lle i ddiogelu cronfeydd rhag cael eu camddefnyddio. Bydd hyn yn dangos i ddarpar roddwyr a buddiolwyr bod yr elusen yn rheoli ei heiddo yn effeithlon.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- ystyried yn ofalus pob maes risg uchel megis rheolaethau dros systemau cyflogres ac archebu nwyddau a gwasanaethau - bydd meysydd risg uchel yn amrywio ac yn dibynnu ar weithgareddau, strwythurau ac asesu risg yr elusen
- cyflwyno polisiau a phrosesau i ddiogelu asedau ac adnoddau eu helusen - dylai staff a gwirfoddolwyr wybod beth yw eu rolau a'u dyletswyddau
- seilio systemau rheolaeth fewnol ar gynllun sefydliadol yr elusen - dylai hwn ddangos yn glir feysydd cyfrifoldeb unigolion a grwpiau, a llinellau awdurdod ac adrodd
- sicrhau nad yw unrhyw ymddiriedolwr na gweithiwr yn llofnodi sieciau neu'n awdurdodi taliadau gan gynnwys ad-daliadau i'w hunain



- cydnabod y bydd rheolaethau ariannol cadarn yn helpu i'w diogelu yn erbyn atebolrwydd personol posibl os daw unrhyw golled i'r elusen drwy gamddefnyddio ei chronfeydd
- cynnal gwiriadau priodol wrth roi grantiau neu ganiatáu'r defnydd o eiddo eu helusen gan sefydliad arall; rhaid i ymddiriedolwyr fod yn sicr (cyn belled â phosibl) y caiff yr asedau a'r adnoddau hyn eu defnyddio i gyflawni nodau'r elusen yn unig
- sicrhau bod unrhyw ddirprwyo gwiriadau a rheolaethau i staff neu wirfoddolwyr yn cael ei ddogfennu'n glir a'i ddeall gan bob parti - dylent gael adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd ar ddefnyddio unrhyw bwerau dirprwyedig
- ystyried defnyddio technoleg newydd i symleiddio prosesau cadw cofnodion, cyfrifyddu a thrafodion
- cael mynediad i gyngor proffesiynol annibynnol - dylai'r cyfathrebu rhwng ymddiriedolwyr elusen, y cyfrifydd a'r archwiliwr annibynnol/archwiliwr ariannol fod yn fwy na chyfnewid cofnodion a gwybodaeth bob blwyddyn

Gwybod rhagor:

### **Rheolaethau ariannol mewnol ar gyfer elusennau (CC8)**

### **Yr ymddiriedolwr hanfodol: beth mae angen i chi ei wybod, beth mae angen i chi ei wneud (CC3)**

### **Diogelu elusennau rhag niwed: pecyn cymorth cydymffurfio**

### **Sut i adrodd am ddigwyddiad difrifol yn eich elusen**

## **2.4 Cronfeydd wrth gefn elusennau**

Rhaid i elusen sydd am ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chyson i'w buddiolwyr fod yn wydn. Mae hyn yn golygu bod haid iddi allu talu costau annisgwyl a manteisio ar newid a chyfluoedd i ddatblygu pan fyddant yn codi. Un ffordd o wneud hyn yw neilltuo incwm, pan fydd yr elusen yn gallu fforddio gwneud hynny, fel cronfa wrth gefn wedi'i neilltuo at ddefnyddiau arbennig yn hytrach na'i defnyddio'n syth ar gyfer nodau'r elusen.

Gall dal cronfeydd wrth gefn gormodol gyfyngu ar y swm sy'n cael ei wario ar weithgareddau elusennol. Ar y llaw arall, gallai cronfeydd wrth gefn annigonol neu dim cronfeydd wrth gefn beryglu diddyledrwydd yr elusen, ei datblygiad neu ei gweithgareddau yn y dyfodol. Felly mae'n bwysig asesu'n briodol beth fydd orau i'r buddiolwyr yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- ystyried a oes angen i'w helusen gadw cronfeydd wrth gefn - mewn rhai achosion os nad yw elusen yn hyfyw mwyach dylai dirwyn i ben a throsglwyddo ei chronfeydd i elusen arall sydd â nodau tebyg - prif ystyriaeth yr ymddiriedolwyr fydd lles y buddiolwyr y cafodd ei sefydlu i'w helpu
- cael polisi cronfeydd wrth gefn, sy'n esbonio lefelau'r cronfeydd wrth gefn i'w cadw a sut y gellir eu defnyddio - bydd hefyd yn dweud a yw'r elusen wedi penderfynu peidio â chadw cronfeydd wrth gefn a pham
- adolygu eu polisi cronfeydd wrth gefn yn gyson er mwyn ystyried amgylchiadau ariannol sy'n newid ac amodau gweithredu ac ariannol newydd
- cydymffurfio â'r **gofynion adrodd blynyddol** i amlinellu polisi cronfeydd wrth gefn yr elusen - diben gwneud y datganiad yw dangos lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr elusen ac esbonio pam y mae angen iddi eu cadw ar y lefel honno - rhaid i'r datganiad hefyd ddweud a yw'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu peidio â chadw cronfeydd wrth gefn

- nodi pa gronfeydd yr elusen sydd â chyfyngiadau ar sut y gellid eu defnyddio - cronfeydd wrth gefn yw cronfeydd sydd ar gael i'w gwario fel a mynnir ond gall eu rhoddwyr roi rhai cyfyngiadau ar y defnydd o rai cronfeydd
- ystyried a ddylai'r cronfeydd wrth gefn a sut y dylai'r cronfeydd wrth gefn gael eu buddsoddi - er enghraifft a oes eu hangen/a allai fod eu hangen ar fyr rybudd dylid eu buddsoddi mewn ffordd sy'n golygu y gellir eu realeiddio yn gyflym fel arian parod yn ôl yr angen
- cynllunio ar gyfer datblygiad yn y dyfodol a chynaliadwyedd wrth ystyried lefelau cronfeydd wrth gefn - gall clustnodi cronfeydd i'w defnyddio ar brosiectau arbennig yn y dyfodol fod yn ffordd o neilltuo ac adeiladu cronfeydd sydd wedi'u gwahanu oddi wrth gronfeydd wrth gefn cyffredinol yr elusen

Gwybod rhagor:

### **Cronfeydd wrth gefn elusennau: meithrin gwydnwch (CC19)**

## **2.5 Rheoli anawsterau ariannol ac ansolfedd**

Bydd elusennau'n gwneud amrywiaeth o waith a all gael ei ariannu mewn sawl ffordd wahanol, a gallant gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd. Mae hyn yn golygu y gall elusennau wynebu ansicrwydd ariannol rywbryd neu'i gilydd. Mae Adran 1 wedi ystyried beth y dylai ymddiriedolwyr ei wneud i atal problemau ariannol rhag codi. Mae'r adran hon yn delio ag achosion pan fydd elusen yn wynebu anawsterau ariannol, ac yn ceisio helpu ymddiriedolwyr i gydnabod pryd y maent wedi cyrraedd y pwynt hwn a pha gamau y dylent eu cymryd i reoli unrhyw risg i fuddiolwyr.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- feddu ar y sgiliau addas a'r amser i sicrhau bod yr elusen yn cael ei rhedeg yn briodol ac arwain neu reoli'r elusen trwy anawsterau
- sicrhau eu bod yn derbyn ac yn ystyried yn rheolaidd yr wybodaeth rheolaeth ariannol ddiweddaraf i'w galluogi i gydnabod ar gam cynnar pryd y mae'r elusen yn wynebu anawsterau ariannol
- gwybod pryd mae'r defnydd o gronfeydd yr elusen wedi'i gyfyngu gan roddwyr a pha rai y gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o'i nodau - mae hyn yn hollbwysig i ddeall sefyllfa ariannol gyffredinol yr elusen
- cymryd camau prydlon pan fyddant yn meddwl bod ansolfedd yn bosiblwydd - dylid ceisio cyngor proffesiynol ysgrifenedig ar gam cynnar oherwydd mae'n rhaid i unrhyw weithredu cywirol gael ei gynllunio'n ofalus
- ystyried newid, torri neu gyfyngu ar weithgareddau'r elusen, adolygu ffynonellau ariannu ac ymrwymadau neu ailariannu
- ystyried **uno neu gydweithredu ag elusen arall**
- bod â dealltwriaeth o (ac os oes angen ceisio cyngor ynghylch) **y gyfraith ansolfedd a sut y mae'n gymwys** i gwmnïau elusennol, a pha opsiynau gwirfoddol sydd ar gyfer mathau eraill o elusennau
- cydnabod pan fydd yr elusen wedi cyrraedd y cam diddymu neu ddirwyn i ben, mai eu prif ddyletswydd yw talu dyledion yr elusen
- **hysbysu'r Comisiwn os yw'r elusen yn cau** neu os nad yw'n gweithredu mwyach er mwyn iddi gael ei dileu o'r gofrestr elusennau (gofyniad cyfreithiol)

Gwybod rhagor:

### **Rheoli cyllid elusen: cynllunio, rheoli anawsterau ac ansolfedd (CC12)**



## 3. Cynhyrchu incwm

### 3.1 Buddsoddiad ariannol

Bydd elusennau yn buddsoddi naill ai i gael enillion ariannol i'w gwario ar ei nodau, neu fel ffordd uniongyrchol o hyrwyddo'r nodau hyn. Bydd rhai dulliau buddsoddi yn gwneud y ddau beth. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr wneud buddsoddiadau er lles gorau'r elusen. Gall elusennau hefyd gael buddsoddiad ariannol mewnol gan roddwyr grantiau a buddsoddwyr cymdeithasol.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- fod wedi cytuno ar bwmpas yr asedau buddsoddi, lefel y risg a'r gorwel amser buddsoddi sy'n briodol ar gyfer eu helusen a buddsoddi yn unol â hynny
- cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau neu ychwanegiadau i'w pwerau buddsoddi cyffredinol sydd fod wedi'u cynnwys yn nogfen lywodraethol eu helusen
- gweithredi i safonau arbennig (**eu dyletswydd gofal**) wrth fuddsoddi
- ystyried **addasrwydd unrhyw fuddsoddiad ar gyfer eu helusen, yr angen i arallgyfeirio** cyn gwneud unrhyw benderfyniad buddsoddi, ynghyd â'r angen parhaus ar gyfer adolygiadau achlysurol o fuddsoddiadau eu helusen
- sefydlu polisi buddsoddi sydd wedi'i gofnodi'n glir ac sy'n cael ei adolygu'n gyson - dylai'r polisi gynnwys:
  - disgrifiad o'r amcanion buddsoddi cyffredinol gan gynnwys disgwyliadau enillion a thargedau incwm
  - lefel y risg buddsoddi y mae'r ymddiriedolwyr yn barodi i'w derbyn i wireddu eu hamcanion buddsoddi
  - gofynion hylifedd
  - anghenion llif arian parod disgwylidig o'r buddsoddiadau
  - y gorwel amser buddsoddi
  - safle'r elusen ar fuddsoddi cyfrifol neu foesegol
- cydymffurfio â'u dyletswydd i weithredu er lles eu helusen wrth fuddsoddi, gan gynnwys wrth wneud buddsoddiad cysylltiedig â rhaglen **neu fuddsoddiad cymdeithasol** - rhaid iddynt sicrhau bod y buddsoddiad yn hyrwyddo nodau'r elusen yn uniongyrchol a bod unrhyw fudd preifat yn atodol
- ystyried a fyddai er lles yr elusen i fabwysiadu ymagwedd gyfrifol neu foesegol at fuddsoddi - gallai rhai mathau o fuddsoddi wrthdaro'n uniongyrchol â nodau'r elusen, gallent ddieithrio buddiolwyr neu gefnogwyr neu efallai na fydd yn adlewyrchu ei gwerthoedd a'i hethos
- ystyried p'un ai i ddirprwyo rheoli buddsoddiadau'r elusen i arbenigwr - gallai hyn olygu buddsoddi mewn cynllun buddsoddi ar y cyd fel ymddiriedolaeth uned, **cronfa buddsoddi ar y cyd** neu gronfa buddsoddi wedi'i hawdurdodi gan yr elusen, neu benodi rheolwr buddsoddi proffesiynol
- ystyried os yw eu helusen yn gwneud cais am unrhyw fath o fuddsoddiad cymdeithasol, gall gynhyrchu digon o arian dros ben i ad-dalu unrhyw ddyled y mae'n ei chymryd

Gwybod rhagor:

**Elusennau a materion buddsoddiad: canllaw i ymddiriedolwyr (CC14)**

## 3.2 Elusennau a chodi arian

Dylai fod systemau gan ymddiriedolwyr yn eu lle i sicrhau bod eu helusen yn cydymffurfio â'r gyfraith codi arian ac yn dilyn arfer da ym mhob agwedd ar godi arian. Mae hyn yn cynnwys dulliau codi arian, costau a risg ariannol a sut i ddiogelu a defnyddio'r arian a godir. Dylai'r ymddiriedolwyr hefyd ystyried yr effaith y bydd neu y gallai ei dulliau codi arian ei chael ar farn gyhoeddus a'i henw da ei hun.

Mae'r corff ymddiriedolwyr yn gyfrifol yn gyfreithiol weithgareddau codi arian yr elusen, ond gallant ddirprwyo rheoli'r gweithgareddau o ddydd i ddydd i staff cyflogedig ac eraill. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai fod systemau gan ymddiriedolwyr yn eu lle i:

- ddal pobl i gyfrif am y modd y maent yn cyflawni eu rôl
- sicrhau eu bod yn gallu cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir, i'r lefel briodol o fanylion, ac yn y fformat gorau
- bod â'r gallu a'r parodrwydd i ddehongli'n feirniadol ac, os oes angen, cwestiynu'r wybodaeth a gânt
- cael eu sicrhau bod gweithgareddau codi arian eu elusen yn cydymffurfio â'r ymagwedd codi arian y maent wedi'i mabwysiadu, y safonau sy'n ofynnol gan eu dyletswyddau fel ymddiriedolwyr, a'r gyfraith ehangach ac arfer gorau

Dylai ymddiriedolwyr hefyd sicrhau bod:

- rheolaeth briodol ganddynt dros unrhyw arian sy'n cael ei godi a'i bod yr arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio at y dibenion y cafodd ei godi ar eu cyfer
- apeliadau at ddibenion penodol yn cael eu rheoli ar wahân a'u cyfrif amdanynt o gronfeydd cyffredinol yr elusen
- cytundebau priodol yn eu lle gyda chodwyr arian proffesiynol a phartneriaid masnachol, os ydynt yn defnyddio eraill i godi arian ar ran yr elusen
- eu bod yn gyfarwydd ag arferion safonau codi arian a amlinellwyd gan y **Rheoleiddiwr Codi Arian**, ac yn eu dilyn
- apeliadau arfaethedig wedi'u cynllunio'n dda, yn unol â nodau a gwerthoedd yr elusen ac yn ystyried unrhyw risgiau ariannol neu enw da sy'n gysylltiedig ag apêl - gall apêl sylweddol olygu cael cynllun busnes, cyllideb a cheisio cyngor proffesiynol
- sefydlu gweithdrefn gwyno agored a hygyrch - bydd hyn yn cynyddu ffydd y cyhoedd yn yr elusen ac yn helpu i ddarganfod gweithgarwch codi arian amhriodol neu dwyllodrus

Gwybod rhagor:

**Codi arian ar gyfer elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr (CC20)**

**Apeliadau trychineb: Canllaw'r Comisiwn Elusennau ar ddechrau, rhedeg a chefnogi apeliadau trychineb elusennol (CC40)**

### 3.3 Elusennau a masnachu

Gall elusennau fasnachu i ariannu eu gweithgareddau. Mae'n bwysig bod elusennau'n gwybod **pa fathau o weithgarwch masnachu y gallant ymgymryd â nhw eu hunain a phryd y bydd rhaid iddynt fasnachu drwy is-gwmni masnachu**. Bydd rhaid iddynt fodloni eu hunain nad yw eu gweithgareddau masnachu yn rhoi asedau elusennol mewn perygl a'u bod nhw wedi'u trefnu mewn ffordd dreth effeithlon.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- geisio cyngor proffesiynol yn gynnar yn y broses, yn arbennig ar faterion **treth a TAW**
- bod yn glir a yw gweithgarwch masnachu arfaethedig yr elusen yn hyrwyddo ei nodau yn uniongyrchol (masnachu prif ddiben), neu a yw'n ffordd o godi arian i'r elusen yn gyffredinol (masnachu heb fod yn brif ddiben) - mae hyn yn bwysig oherwydd gall fod â goblygiadau treth i'r elusen
- sefydlu a yw unrhyw weithgareddau codi arian arfaethedig megis cynnal digwyddiadau neu weithio gyda chyfryngwyr masnachol wedi'u cynnwys o fewn y categori o fasnachu - mae'r Comisiwn yn argymhell bod elusennau'n ceisio cyngor priodol cyn gweithredu
- asesu'r risg i asedau eu helusen wrth ystyried masnach nad yw'n fasnach prif ddiben - er enghraifft, gallai colledion o weithgareddau masnachu roi cronfeydd cyffredinol neu asedau'r elusen mewn perygl ac effeithio ar ei gallu i gyflawni ei nodau
- ystyried a ddylai'r fasnach gael ei chynnal gan is-gwmni masnachu os oes risgiau sylweddol i asedau'r elusen - gall gwneud hynny fod yn dreth effeithlon a gallai ddiogelu cronfeydd yr elusen rhag colledion masnachu - bydd elw o'r is-gwmni masnachu yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r rhiant elusen
- sicrhau mai buddiannau'r elusen yw'r brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad sy'n cael ei wneud am is-gwmni masnachu - bydd buddiannau'r is-gwmni, ei gyfarwyddwyr, ei gredydwyr neu ei weithwyr yn dod yn ail i rai'r elusen - dylai unrhyw wrthdaro buddiannau gael ei nodi a'i reoli
- cynllunio i warchod asedau'r elusen cyn belled â phosibl wrth gymryd a rheoli contractau darparu gwasanaeth - er enghraifft, gallai methu â chyflawni canlyniadau greu colledion i'r elusen - ydy/a ddylai polisi cronfeydd wrth gefn yr elusen ddarparu ar gyfer hyn?

Gwybod rhagor:

**Ymddiriedolwyr, masnachu a threth: sut y gall elusennau fasnachu'n gyfreithiol (CC35)**

**Gwrthdaro buddiannau: canllaw i ymddiriedolwyr elusen (CC29)**

## 4. Defnyddio adnoddau eraill

### 4.1 Staff a gwirfoddolwyr

Mae staff a gwirfoddolwyr elusen yn rhan hanfodol o'i hasedau a'i hadnoddau ac yn hanfodol er mwyn i'r elusen ddarparu gwasanaethau effeithiol i fuddiolwyr. Mae'n bwysig iawn bod elusennau fel cyflogwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol ac yn sicrhau eu bod nhw wedi datblygu a gweithredu polisiau rheoli staff a gwirfoddolwyr effeithiol.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- **ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithiol fel cyflogwr** a chadw i fyny ag unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth - mae'n bwysig bod yr elusen yn gwybod ble i fynd am gyngor a gwybodaeth ar y pwnc hwn a'i bod yn ceisio cyngor proffesiynol pan fydd angen
- gwneud y defnydd gorau o staff drwy adolygu'n rheolaidd y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen, pa ddulliau recriwtio y mae'n eu defnyddio ac amodau hyfforddi a gweithio'r elusen - ystyried oriau hyblyg, cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynnal adolygiadau perfformiad
- adolygu lefelau staff yn gyson er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyfateb â chynllunio strategol yr elusen, a sicrhau bod adnoddau staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fodloni amcanion busnes a nodau elusennol yr elusen
- deall eu **dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â'r ddarpariaeth pensiwnau ar gyfer staff** ac yn ymwybodol o'r gofynion cyfredol - dylai trefniadau pensiwn fod er lles gorau'r elusen, a chael eu seilio ar gyngor proffesiynol priodol
- nodi a chynllunio ar gyfer rheoli'r risgiau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynllun pensiwn y gallai fod gan yr elusen - dylent wybod pryd i ofyn am gymorth a chynngor ar faterion pensiwn a cheisio cyngor priodol yn ystod y broses gynllunio
- adrodd ar rwymedigaethau pensiwn eu helusen a sut y maent yn cael eu rheoli yn eu cyfrifon ac adroddiad blynyddol
- adolygu'n rheolaidd bolisiau'r elusen ar y **cymorth, hyfforddiant a'r defnydd o wirfoddolwyr** - mae angen iddi fod yn ymwybodol o safle cyfreithiol gwirfoddolwyr - mae meysydd deddfwriaeth a allai fod yn gymwys gynnwys gwiriadau cofnodion troseddol, diogelu data ac iechyd a diogelwch
- gwybod pa **dreuliau y gellir eu had-dalu i wirfoddolwyr o gronfeydd yr elusen** - dylai fod gweithdrefn polisi ysgrifenedig ar gyfer hawlio a chymeradwyo treuliau

Gwybod rhagor:

**Cronfeydd wrth gefn elusennau a chynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio**

**Sut i adrodd am ddigwyddiad difrifol yn eich elusen**

**Staff a gwirfoddolwyr**

## 4.2 Elusennau ac yswiriant

Fel rhan o'u dyletswydd gyffredinol i ddiogelu a gwarchod asedau ac adnoddau eu helusen, dylai ymddiriedolwyr ystyried ffyrdd o ddiogelu eiddo eu helusen rhag colled neu ddifrod a rheoli'r risg o drydydd parti yn hawlio yn erbyn cronfeydd yr elusen. Gall yswiriant fod yn ffordd briodol i'r ymddiriedolwyr gyflawni'r ddyletswydd hon a rheoli'r risgiau hyn.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- **wybod pryd i yswirio eu helusen**, a phrynu'r yswiriant priodol - mae hyn yn cynnwys **yswiriant atebolrwydd cyflogwyr** (os yw elusen yn gyflogwr), **yswiriant modur** yn erbyn anafiadau trydydd parti a difrod i eiddo os yw elusen yn berchen ar gerbydau modur neu'n eu gweithredu
- yn ymwybodol o'r pŵer yn y Ddeddf Ymddiriedolwyr sy'n galluogi ymddiriedolwyr i yswirio unrhyw eiddo y mae eu helusen yn berchen arno yn erbyn y risg o golled neu niwed yn sgîl unrhyw ddigwyddiad, a thalu premiymau o gronfeydd yr elusen
- yn ymwybodol o unrhyw ofyniad yn nogfen lywodraethol yr elusen i'w hymddiriedolwyr brynu rhai mathau o yswiriant, ar wahân i'r mathau hynny sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- nodi risgiau i'r elusen - bydd hyn yn cynnig modd i'r elusen nodi pa risgiau y gellir eu derbyn, eu rheoli, eu hatal neu eu trosglwyddo i yswiriwr (h.y. prynu polisi yswiriant)
- trin gwirfoddolwyr mewn ffordd debyg i weithwyr at ddibenion yswiriant a **sicrhau bod yswiriant eich elusen yn cwmpasu eich gwirfoddolwyr** - ystyried sut y mae'r yswiriwr yn diffinio'r term 'gwirfoddolwr' a chadw cofnodion priodol o'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio i'r elusen sydd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad hwnnw
- ystyried ceisio cyngor proffesiynol annibynnol gan **frocer dibynadwy** sydd â dealltwriaeth o anghenion yswiriant elusennau
- ystyried manteision pecynnau yswiriant elusen wedi'u teilwra - er enghraifft, ar gyfer neuaddau pentref, grwpiau cymunedol bach, rhai mathau o ddigwyddiadau a gweithgareddau codi arian eraill

Gwybod rhagor:

### Elusennau ac yswiriant (CC49)

## 4.3 Prynu a gwerthu tir

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen weithredu yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol pan fyddant yn prynu neu'n gwerthu tir. Gall elusen ddefnyddio tir i gyflawni nodau'r elusen neu gall ei ddal fel buddsoddiad. Hefyd dylai elusen sicrhau ei bod hi'n diogelu ei thir.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- gydymffurfio â phwerau'r elusen i brynu, gwerthu, prydlesu neu waredu ei thir, naill ai i'w ddefnyddio ar gyfer ei nodau neu fel buddsoddiad - bydd y pwerau sydd ganddi yn amrywio yn ôl ei strwythur cyfreithiol ac weithiau gan ddarpariaethau yn nogfen lywodraethol yr elusen
- cymryd cyngor proffesiynol priodol pan fyddant yn ystyried prynu neu werthu tir
- cydymffurfio â'u **dyletswydd gofal** wrth fuddsoddi mewn tir
- cydymffurfio â gofynion y gyfraith wrth waredu ei thir - mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r trafodion hyn gael eu rheoli'n briodol er lles yr elusen

- cael cydsyniad y Comisiwn os yw tir yn cael ei waredu i unigolyn cysylltiedig - mae unigolion cysylltiedig yn cynnwys ymddiriedolwyr a'u perthnasau agos, rhoddwr y tir a'u perthnasau agos, is-gwmni masnachu'r elusen a gweithwyr a swyddogion yr elusen
- **darllen canllaw'r Comisiwn os oes angen cydsyniad arnynt**, ceisio unrhyw gyngor priodol a gallu dangos pam bod y trafodion er lles gorau'r elusen
- cadw cofnod llawn o'r tir y mae'r elusen yn berchen arno - oes rhaid i unrhyw dir gael ei gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir? fyddai'n fwy cyfleus i'r elusen **drosglwyddo tir i Geidwad Swyddogol Elusennau?**
- monitro cyflwr tir yr elusen a sut y caiff ei ddefnyddio - er enghraifft, dylent gynnal adolygiadau rhent rheolaidd o dir buddsoddi a chael rhaglen gylchol reolaidd o gynnal a chadw ar gyfer asedau treftadaeth
- **ceisio rhyddhad ardrethi dewisol gan yr awdurdod lleol**, os yw'n briodol

Gwybod rhagor:

**Gwerthiannau, prydlesi, trosglwyddiadau neu forgeisiau: yr hyn y mae angen i ymddiriedolwyr wybod am waredu tir elusennau (CC28)**

**Prynu Tir (CC33)**

#### 4.4 Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr

Fel rheol bydd ymddiriedolwyr elusen yn gweithredu mewn rhinwedd wirfoddol oni bai bod dogfen lywodraethol eu helusen yn datgan fel arall. Gall elusen ad-dalu ei hymddiriedolwyr am eu treuliau cyfreithlon. Mae'r Ddeddf Elusennau hefyd yn amlinellu'r amgylchiadau arbennig pan y gall elusen dalu ei hymddiriedolwyr am ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymddiriedolwyr:

- fod yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaethau yn nogfen lywodraethol yr elusen sydd naill ai'n awdurdodi neu'n gwahardd gwneud taliadau i ymddiriedolwyr
- sicrhau y bydd **tal ymddiriedolwr i fod yn ymddiriedolwr neu'n aelod cyflogedig o staff** (os yw hyn er lles yr elusen) yn gofyn am awdurdod penodol naill ai yn ei dogfen lywodraethol, gan y Comisiwn neu, yn llai aml, gan y llysoedd
- gwybod bod hawl gan ymddiriedolwyr gael unrhyw dreuliau cyfreithlon sy'n codi ar ran yr elusen wedi'u talu o'u cronfeydd - dylai'r elusen fod â pholisi ysgrifenedig yn ei le sy'n nodi pa hawliadau sy'n cael sylw a'r gweithdrefnau ar gyfer hawliau a chymeradwyo treuliau ar gyfer ei holl staff ac ymddiriedolwyr
- **gwybod sut ac ym mha amgylchiadau y gallant ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Elusennau i dalu ymddiriedolwyr ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau** - gall dogfen lywodraethol yr elusen effeithio ar ddarpariaethau'r Ddeddf Elusennau
- os oes angen **cydsyniad y Comisiwn** arnynt, dylent ddarllen canllaw'r Comisiwn, ceisio unrhyw gyngor priodol a gallu dangos pam bod y cynnig er lles gorau'r elusen
- gallu dangos sut y bydd perfformiad yr unigolion dan sylw yn cael ei fonitro a'i asesu
- yn agored ac yn dryloyw ynghylch unrhyw benderfyniad i dalu ymddiriedolwyr a bod yn barod i'w gyfiawnhau os caiff ei herio'n gyhoeddus



- datgelu unrhyw daliadau a wnaed i ymddiriedolwyr yng nghyfrifon yr elusen yn unol â chanllawiau SORP Elusennau - mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer cwynion ac elusennau mwy ond bydd yn cynnig modd i elusennau o bob lliw a llun i fod yn agored ac yn dryloyw (gofyniad cyfreithiol)
- cael gweithdrefnau diffiniedig clir ar gyfer adnabod a rheoli'r gwrthdaro buddiannau a all godi wrth ystyried talu ymddiriedolwr (neu unigolyn sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwr hwnnw)
- adolygu'n gyson berfformiad pob ymddiriedolwr - mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd ymddiriedolwr yn derbyn taliad gan yr elusen

Gwybod rhagor:

## Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr (CC11)

### 4.5 Termau technegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn

**Deddf Elusennau** yw Deddf Elusennau 2011.

Adroddiad blynyddol yw adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr wedi'i baratoi o dan y gofynion yn y Ddeddf Elusennau.

Buddiolwr neu fuddiolwyr yw unigolyn neu grŵp o bobl sy'n gymwys i elwa o waith elusen. Diffinnir grŵp buddiolwyr elusen yn nogfen lywodraethol yr elusen. Weithiau gall buddiolwyr gael eu galw'n gleientiaid neu'n ddefnyddwyr gwasanaeth.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sy'n amodol ar ymddiriedolaethau penodol sydd wedi'u cynnwys o fewn dibenion ehangach yr elusen. Gall cronfeydd cyfyngedig fod yn gronfeydd incwm cyfyngedig, y gellir eu gwario yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr er mwyn hyrwyddo rhyw agwedd arbennig ar ddibenion yr elusen, neu gallant fod yn gronfeydd gwaddol lle mae'n rhaid i'r asedau gael eu buddsoddi neu eu cadw i'w defnyddio yn hytrach na'u gwario.

Cronfeydd wrth gefn yw'r adnoddau sydd gan elusen, neu sydd ar gael i'r elusen, i'w gwario ar unrhyw un neu bob un o'i dibenion ar ôl iddi fodloni ei hymrwymiaidau a darparu ar gyfer ei gwariant arfaethedig arall.

Cwmni elusennol yw elusen sy'n gwmni wedi'i ffurfio a'i gofrestru o dan y Deddfau Cwmnïau, neu y mae darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 yn gymwys iddo.

Deddf Ymddiriedolwyr yw Deddf Ymddiriedolwyr 2000.

Dogfen lywodraethol yw dogfen gyfreithiol sy'n amlinellu nodau'r elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cymdeithasu, yn ewyllys, yn drawsgludiad, yn Siarter Frenhinol, yn gynllun y Comisiwn Elusennau, neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Gweithgareddau elusen yw unrhyw beth y mae'n ei wneud drwy ddefnyddio'r asedau neu'r adnoddau y mae'n berchen arnynt neu sydd o dan ei rheolaeth. Mae'n cynnwys ei holl waith a'i holl wasanaethau.

Nodau a nodau elusennol yw'r nodau y mae'r elusen wedi'i sefydlu i'w cyflawni. Fel arfer mae'r nodau wedi'u mynegi yn nogfen lywodraethol yr elusen.

Pŵer buddsoddi cyffredinol yw'r pŵer buddsoddi a roddir i ymddiriedolwyr gan adran 3 o'r Ddeddf Ymddiriedolwyr gan gynnwys y pŵer i fuddsoddi mewn tir yn adran 8 o'r Ddeddf Ymddiriedolwyr.

Risg yn y canllaw hwn yw'r gair a ddefnyddir i ddisgrifio'r ansicrwydd a gyfyd mewn digwyddiadau a'u canlyniadau a allai gael effaith arwyddocaol, boed hynny o ran gwella neu lesteirio unrhyw faes gweithredu'r elusen.

Y rheoliadau yw Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (SI 2008 Rhif 629) sy'n amlinellu ffurf a chynnwys gofynnol adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r trefniadau craffu a chyfrifyddu ar gyfer elusennau.

SORP yw Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau - Datganiad o Arferion Cymeradwy 2005. Mae'r SORP yn amlinellu'r arferion cymeradwy y dylai elusennau eu dilyn wrth lunio adroddiadau a chyfrifon blynyddol, ac mae elfennau allweddol y SORP wedi'u seilio ar reoliadau 2008.

Ymddiriedolwr yw ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen, gellir eu galw gyda'i gilydd yn ymddiriedolwyr, y bwrdd, ymddiriedolwyr rheoli, y pwyllgor rheoli, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr, neu gall fod rhyw deitl arall ganddynt.